# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 10fed o DACHWEDD 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. Margaret A. Thomas
Cyng. Terry Jones
Cyng. Geraint Bebb
Cyng. Non W. Parry.
Cyng. R. Alwyn Parry
Cyng. Henry Jones
Cyng. Arwel Môn Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL :**
Ms. Linda Powell - Swyddog Gweinyddol
Mrs Llinos Jones – Aelod o'r Cyhoedd

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn*

**25/140** **Ymddiheuriadau :** Cyng. J. Huw Owen
**Cynghorydd Sir :** Dylan W. Rees
**Heddlu** :

**25/141** **Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/142** **Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**

**25/143** **Cyflwyniad : Smyrna Heritage Developments :** Yr Eitem yma wedi codi yng Nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio 08.09.2025 gyda'r sylwad i dderbyn mwy o wybodaeth gan y Perchnogion. Ni ddaeth Perchenogion y Capel i roi'r Cyflwyniad. Dim trafodaeth.

**25/144** **Datganiad Derbyn Swydd - Ward Cefni :** Cadeirydd yn llongyfarch Cyng. Geraint Bebb ar gael ei gyfethol fel Aelod o'r Cyngor Tref ar Ward Cefni ac yn edrych ymlaen at ei gyfraniad i'r Cyngor Tref. Cyng. Bebb yn arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd.

**25/145** **I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 08.09.2025 & 13.10.2025 :**
**Cyfarfod 08.09.2025 :** Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir,
**Cyfarfod 13.10.2025 :** Nodwyd, oherwydd bod dim Quorum, Nodiadau ar drafodaeth agored ar gael trwy'r Swyddfa.

**25/146** **I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 08.09.2025 & 13.10.2025 :**
**1** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa.

***PARHAD 25/146***

**Materion yn Codi o Gofnodion 08.09.2025 :**

2 **Cyfeillion Lon Las Môn :** Cadeirydd yn rhoi braslun o'r cefndir ac yn cyfeirio at y Cyflwyniad gan Gynrychiolydd y Grŵp. Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio, i gefnogi'r fenter mewn egwyddor ac yn gwerthfawrogi'r ymdrechion a 2ella. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cynnig uchod. Dim trafodaeth 2ellach.

**Dim materion yn codi o Gofnodion 13.10.2025.**

**25/147 Cynllunio :**

1 **I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 08.09.2025 & 13.10.2025 :** Aelodau yn fodlon i dderbyn y Cofnodion uchod ynghyd a phenderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod.

**25/148 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 15.09.2025 :**

1 Cadeirydd yn trosglwyddo'r Eitem yma i Cyng. Terry Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae. Cyng. Jones yn adrodd fod y wybodaeth o'r Cyfarfod uchod i gyd yn y Cofnodion. Cynhaliwyd y Cyfarfod nesaf Nos Lun 17eg o Dachwedd 2025, os bydd Aelodau efo unrhyw gwestiynau. Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Alwyn Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/149 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 23.10.2025 :**

Cadeirydd yn cyflwyno'r Cofnodion ac yn datgan ei fod wedi cael gair gyda'r Swyddog Gweinyddol am Eitem heb ei gynnwys yn y Cofnodion. Bydd hyn yn derbyn sylw ar Raglen nesaf y Pwyllgor ar 1af o Ragfyr 2025.

Cadeirydd yn adrodd fod Adroddiad Ariannol wedi'i gyflwyno a bod y wybodaeth yn hollol glir am y rhan cyntaf o'r flwyddyn, Ebrill 2025 i Fedi 2025 ac yn falch fod y gwariant o fewn y terfynau priodol am y chwe mis. Bydd Cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar gyfer amserlen gwaith paratoi'r Precept, pryd yma bydd y Precept yn cael ei gyflawni a bydd sefyllfa'r gyllideb yn fwy clir i bawb.

Cadeirydd yn dwyn sylw i gynnwys Eitem ar Raglen Cyfarfod Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.11.2025, i ystyried unrhyw gyllideb ar gyfer Offer Chwarae 2026-2027, a chadw'r costau mor agos â phosib i ffigyrau'r gyllideb. Yn dilyn o'r uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD HEFYD** i gynnwys Eitem yn unol â'r uchod ar Raglen Cyfarfod Pwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.11.2025.

Ar ddiwedd yr Eitem yma bu ymestyn diolch yn fawr i Mr. Arnold Milburn am baratoi gymaint o waith a chyflwyno'r Adroddiad Ariannol mewn ffordd glir a ddealladwy. Bu Mr. Milburn yn parhau i baratoi gwaith y Precept yn barod i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir yn fuan yn Fis Chwefror 2026. Dim trafodaeth bellach.

**25/150 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**

Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Gwasanaeth Sul y Cofio 09.11.2025 :** Cadeirydd yn diolch i bawb wnaeth fynychu'r Gwasanaeth, er gwaethaf y tywydd, roedd y Gwasanaeth yn drefnus a phresenoldeb da iawn o amgylch y Gofeb. Bu canmoliaeth a diolch i'r Tirmon, Mr. Wil Roberts a Mr. Berwyn Jones am eu gwaith paratoi allanol a hefyd i'r Swyddfa am y trefniadau ar ran y Cyngor Tref.

**25/151 Materion yn Codi Gan Aelodau :** Dim materion wedi'u derbyn trwy'r Swyddfa.

1 **Ystafelloedd Newid, Lon Newydd :** Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw fod dau Amcan Bris wedi'u derbyn ar gyfer gwaith allanol i'r Ystafelloedd Newid Clwb Pêl Droed Ieuenctid, Lon Newydd. Darllenwyd y fanyleb gwaith i'r Aelodau am y gost o £3,880.00. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Non W. Parry yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn yr Amcan Bris uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn yr Amcan Bris a symud ymlaen i gychwyn ar y gwaith.

**25/152 Adroddiad y Clerc :**

Cadeirydd yn adrodd fod pawb yn ymwybodol o sefyllfa'r Clerc ac oherwydd hyn, nid oes Adroddiad i'w chyflwyno: Cadeirydd yn dwyn sylw at y canlynol :

1 **Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 28.11.2025 :** Cadeirydd yn egluro, oherwydd prinder staff o ganlyniad salwch, yn anffodus, ni fydd y Cyngor Tref yn trefnu Achlysur Nadolig eleni. Mae trefniant mewn lle i Gontractwr osod y Goleuadau Nadolig i fynnu a'u rhoi ymlaen Nos Wener 28ain o Dachwedd 2025. Cyng. Non Parry yn egluro'r trefniadau eleni ar ôl mynychu cyfarfodydd Grwpiau Allanol/Busnesau'r Dref, sydd yn awyddus i gael digwyddiad i'r Dref eleni. Dim trafodaeth bellach.

2 **Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Nadolig :** Llythyr yn rhoi gwybod i Fusnesau a Siopau'r Dref o'r Gystadleuaeth ac yn cael eu hanfon allan wythnos yma.

**25/153 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :**

1 **Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned 20.10.2025 :** Cofnodion 19.05.2025 – Yn Atodol – Er Gwybodaeth;

2 **Cyfarfod Trefi Môn (Y Pump Tref) CCTV 20.10.2025 - Wedi'i Ail-drefnu 10.11.2025 :** Cyng. Margaret Thomas a Swyddog Gweinyddol wedi mynychu'r Cyfarfod. Cyng. Thomas yn rhoi adborth, mai pwrpas y Cyfarfod oedd helpu mapio ymchwil ar ran Prif Ysgol Wrecsam ynghylch Adolygiad Annibynnol o CCTV yng Ngogledd Cymru, a gomisiynwyd gan Swyddog Comisiynydd yr Heddlu. Bydd yr adolygiad yn darparu asesiad annibynnol o effeithiolrwydd ac effaith systemau CCTV ar draws Gogledd Cymru, i lywio gwneud penderfyniadau a buddsoddi yn y dyfodol. Aelodau'r Grŵp yn awyddus gofyn am gefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn ar yr uchod. *Cadeirydd yn diolch i Cyng. Thomas am ei Adroddiad.*

3 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn 08.10.2025 :** Cofnodion yn Atodol - Er Gwybodaeth;

4 **Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni - 04.11.2025 :** Cadeirydd yn adrodd fod yn bwysig cael Cynrychiolydd ar y Grŵp yma. **PENDERFYNWYD** enwebu Cyng. Margaret Thomas i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Gyngor Coleg Llangefni.

**25/154 Cyllid :**

**I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Medi & Mis Hydref 2025 :**

1 Cadarnhaodd y Swyddog Gweinyddol nad oedd unrhyw gwestiynau yn codi o'r Mantolau Ariannol wedi'i chyflwyno drwy'r Swyddfa.

**Mantolen Medi 2025 :** Cyng. Alwyn Parry yn holi am y taliadau i Gwmni Worknest. Cyng. Margaret Thomas yn esbonio eu bod yn daliadau am gyngor yn dilyn Adroddiad Awdit Cymru. Cadeirydd yn datgan i gyflawnir costau Cwmni Worknest a dylid edrych ar y taliadau misol. Dim trafodaeth bellach.

2 **Hydref 2025 :** Cadeirydd yn datgan ei fod yn anfodlon fod Cerbyd y Cyngor Tref wedi mynd allan o Llangefni i'w drwsio. Cyng. Margaret Thomas yn esbonio fod yn waith arbenigol a bod y cyfleusterau ar gael yn y Garej yng Ngaerwen. Dim trafodaeth bellach.

Cyng. Non Parry yn dwyn sylw at y taliadau CCTV. Cyng. Margaret Thomas yn esbonio mai cyfraniad Heddlu Gogledd Cymru i'r Pump Tref oedd hyn.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Mantolau Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolau Ariannol Medi a Hydref 2025.

**25/155 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**
**Cynghorydd Sir, Geraint Bebb yn adrodd ar y canlynol :**

- Cynyddu'r terfyn cyflymder 20myr yn ôl i 30mya ar Ystâd Ddiwydiannol;
- Bydd Ffordd Glanhwfa yn aros yn 20mya;
- Arwyddion newydd wedi'u harchebu ar gyfer y dref;
- Swyddogion yn gwerthuso'r Gyllideb blwyddyn nesaf : Efallai llai o arian Llywodraeth Leol – mwy o wybodaeth yn Mis Rhagfyr.

*Cadeirydd yn diolch i Cyng. Bebb am ei adborth.*

**25/156 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **Kids Cancer Charity - Llythyr 06.10.2025 :** Cyng. Non Parry yn adrodd nad ydyw'r Cyngor yn enwebu Elusen, ond gallwn gynnwys yr Elusen uchod ar ein Rhestr Cyfraniadau ar gyfer 2025/2026. **PENDERFYNWYD** derbyn Cynnig Cyng. Parry a rhoi gwybod i'r Elusen Kids Cancer.

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Arwyddion Croeso - Tref Llangefni :** Aelodau yn gefnogol o'r arwydd glas gyda'r Cloc a'r Coed ynghyd a'r Murlun o'r Wiwer Goch a byd Natur y Dingle.

3 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Cyflwyniad : Prosiect Taclo Amddifadedd Gyda'n Gilydd -** Wedi ei anfon trwy e-bost at yr Aelodau - Er Gwybodaeth.

**25/157 Gwybodaeth : Er Gwybodaeth :**
**Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Hydref 2025 :**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Un Llais Cymru** | **-** | **Derbyn** |
| **2** | **Materion Eraill** | **-** | **Derbyn** |

**25/158 I Ystyried Unrhyw Fater brys gan y Cadeirydd :**
**Cae Pêl Droed :** Digwyddiad wedi digwydd dros y penwythnos – dim mwy o fanylion ar hyn o bryd.

**25/158 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : Nos Lun 8fed o Ragfyr 2025**

*7.15y.h. Diwedd y Cyfarfod*

***Cyng. J. Egryn Lewis***
***CADEIRYDD***